

Bydd Magnetig 5, pumed raglen Ffrainc-DU o breswylfeydd i artistiaid yn lansio ar 7 Ebrill 2026

Lansiwyd y rhwydwaith o 10 preswylfa yn Ffrainc a'r DU yn 2022 dan ymbarél Prosiectau Celf Fluxus.

Ar gyfer 2026, mae'n cadw at yr un fformat ag o'r blaen gyda 12 partner rhyngwladol a chyfanswm o 37 o artistiaid sy'n cael ffi o'r DU ac o Ffrainc.

Mae'n partneru â 10 sefydliad blaenllaw yn Ffrainc a'r DU mewn ffordd gyfartal i gryfhau cysylltiadau rhwng rhanbarth yn Ffrainc a chenedl yn y DU. Mae artistiaid o wahanol ranbarthau o Ffrainc yn ymgeisio am breswylfa yn un o genhedloedd y DU, ac i'r gwrthwyneb. Bydd Capc yn Bordeaux/Nouvelle-Aquitaine yn cysylltu â Chanolfan Gelfyddydol Wysing, Caergrawnt, Frac Llydaw yn Roazhon/Rennes â Chanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, Frac Grand Large yn Dunkirk/Hauts-de-France â Stiwdios Flax ym Melffast, Villa Arson yn Nice/Provence-Alpes-Côte d'Azur â Pharc Cove yn yr Alban a Bétonsalon-Canolfan Celf ac Ymchwil ym Mharis/Île-de-France â Gwaith Nwy yn Llundain.

Nod Magnetig yw datblygu artistig drwy gyfnewid a gwella cydweithio cynaliadwy rhwng celfyddydau gweledol y DU a Ffrainc yn yr hir dymor. Mae gan y rhaglen sawl cryfder. Materion cymdeithasol ac amgylcheddol sydd wrth ei gwraidd. Mae disgwyl i'r 10 artist ymateb i gyd-destun penodol – daearyddol, hanesyddol, cymdeithasol, artistig ac ati. Mae lefel y tâl i artistiaid yn gryfder arall. Bydd artistiaid yn derbyn ffi fisol o £2,100 / 2 500 € a mentora curadurol. Bydd pob preswylfa yn cael ei deilwra mewn trafodaeth â thimau curadurol y sefydliad gan gynnig cyfleoedd rhwydweithio i'r artist drwy gydol eu preswylfa. Bydd artistiaid yn cael llety a gweithle.

Ymhlith yr artistiaid a gefnogwyd hyd yma mae: Susie Green, Joshua Leon, Hugh Nicholson, Zoe Williams, Chizu Anucha, Daria Blum, Tom Cardew, Charys Wilson, Emilia Beatriz, Racheal Crowther, Mez Kerr Jones, Robin Price, Lisa Selby, Raheel Khan, Freya Dooley, Aniela Piasecka, Dorothy Hunter, Tom K Kemp a Carla Adra, David Douard, Éléonore False, Azzedine Saleck, Antoine Viviani, Elise Charcosset, Francisco Rodríguez Teare, Laure Vigna, Maxime Voidy, Violaine Barrois, Camille Brée, Donovan Le Coadou, Elsa Prudent, Dorian Teti, Omar Castillo Alfaro, Maeva Totolehibe, Salomé Ingelbrecht, Mathilde Dewavrin, Marie Lelouche.

Dyfeisiwyd Magnetig gan yr Institut français du Royaume-Uni a 4 asiantaeth ariannu celfyddydau'r DU, gyda'r Cyngor Prydeinig, yr Institut français, Gweinyddiaeth Diwylliant Ffrainc a Gweinyddiaeth Ewrop a Materion Tramor Ffrainc. Mae'n digwydd dan ymbarél Prosiectau Celfyddydol Fluxus, elusen gan yr Institut â chefnogaeth partneriaid cyhoeddus a phreifat Ffrainc a'r DU. Dros yr 16 mlynedd diwethaf, mae'n cefnogi arddangosfeydd ac ymchwil curadurol yn Ffrainc ac yn y DU.

### Mae ceisiadau'n agor ar 7 Ebrill a chau ar 2 Mehefin 2026.

I ymgeisio, rhaid cyflwyno cynnig artistig sy'n amlinellu eich ymarfer a'ch diddordebau ymchwil yng nghyd-destun ffocws y sefydliad lletyol a thestun byr am eich rhesymau dros ymgeisio ar y pwynt yma yn eu gyrfa. Rhaid cyflwyno drwy wefan [Prosiectau Celf Fluxus](#) – yno mae gwybodaeth ychwanegol am y rhaglen a'r 10 sefydliad.

Byddwn yn cyhoeddi ein dewis artistiaid ym mis Gorffennaf 2026. Bydd preswylfeydd yn dechrau yng ngeaf 2026.

Am ragor o wybodaeth: [fluxusartp@gmail.com](mailto:fluxusartp@gmail.com)

Cefnogir Magnetig gan yr Institut français du Royaume-Uni, yr Institut français, Gweinyddiaeth Diwylliant Ffrainc, Gweinyddiaeth Ewrop a Materion Tramor Ffrainc, Cyngor Celfyddydau Cymru/Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Yr Alban Greadigol, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon a'r Cyngor Prydeinig.

